

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Adroddiad Blynyddol 2022 - 2023

Mawrth 2023

Cyflwyniad

Mae'r ardal a wasanaethir gan Gyngor Cymuned Dolbenmaen yn cynnwys wardiau **Bryncir, Garndolbenmaen, Golan, Penmorfa, Prenteg a Phentrefelin**. Mae ardal Golan wedi ei gynnwys yn ymgais llwyddiannus Cyngor Gwynedd i sicrhau Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

Poblogaeth o 1009 (Cyfrifiad 2021) sydd gan Ward Dolbenmaen, ac mae'n ymestyn dros 8,609 hectar. Mae'r Cyngor Cymuned yn weithgar iawn ac yn gwneud gwaith amgylcheddol, yn cefnogi datblygiadau cymunedol ac yn cynorthwyo'r trigolion gyda materion personol a chymunedol. Rydym yn cynnig sylwadau ar bob cais cynllunio o fewn y gymuned.

Er mai dim ond Ysgol Garndolbenmaen sydd o fewn dalgylch y Cyngor, mae Ysgol Gynradd Llanybi, Ysgol y Gorlan Tremadog, Ysgol Trefarthyr Cricieth ac Ysgol Borth y Gest hefyd yn gwasanaethu plant yr ardal. Dwy ysgol uwchradd sydd yn gwasanaethu'r ardal sef Ysgol Eifionydd, Porthmadog ac Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes.

Dyletswyddau

Mae Cyngorau Cymuned yn cynrychioli cymunedau unigol o fewn eu siroedd. Eu prif nod yw gwella amgylchedd ac ansawdd bywyd y bobl sy'n byw yn eu hardaloedd.

Mae gan Gyngorau Cymuned bwerau cyfreithiol i ddarparu rhai gwasanaethau, ac maent yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Sir yn eu hardal.

Dyma ambell beth mae Cyngorau Cymuned yn gyfrifol amdanynt -

- hysbysfyrddau ac arwyddion gwybodaeth i'r cyhoedd
- meinciau cyhoeddus a llochesi bysiau
- cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus
- gofalu am fynwentydd.

Aelodaeth

Mae'r Cyngor Cymuned yn cynnwys 16 o Gyngorwyr sy'n cynrychioli'r wardiau.

Ward Bryncir - Y Cyngorwyr Edward Evans a Richard Parry.

Ward Prenteg - Y Cyngorwyr Richard Williams a Gwilym Evans.

Ward Garndolbenmaen - Y Cyngorwyr John Jones, Clifford Williams, Michael Jones ac Enid Egginton.

Ward Golan - Y Cyngorwyr Megan Lloyd Williams a John A. Till.

Ward Penmorfa - Y Cyngorwyr Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards a Jess Williams.

Ward Pentrefelin - Y Cyngorwyr Huw Pritchard, Sarah Jones a Raymond Jones.

Yn ystod y flwyddyn, ymddiswyddodd 4 o'r Cyngorwyr, ond bu'r Cyngor yn llwyddiannus yn gallu cyfethol pobl o'r gymuned i lenwi'r seddau.

Ar y 14eg o Ragfyr, 2022 daeth newyddion trist i'm plith am farwolaeth frawychus o sydyn Mr Dafydd Thomas. Bu Mr Thomas yn Gynghorydd Cymuned Dolbenmaen am flynyddoedd lawer. Yn ystod ein cyfarfod misol ar y 5ed o Ionawr, fe'i coffawyd a chydymdeimlwyd yn ddiffuant gyda'i wraig, Margaret a'i fab, Dylan a'i deulu.

Staff

Mae'r Cyngor Cymuned yn cyflogi Clerc a Swyddog Ariannol sy'n gweithio'n rhan amser am 7 awr yr wythnos.

Cyfarfodydd

Mae'r Cyngor yn cyfarfod yng Nghanolfan Cymdeithasol Golan ar nos Iau gyntaf y mis am 7 o'r gloch. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac eithrio pan fo materion sensitif yn cael eu trafod. Cynhelir y cyfarfod blynyddol yn ystod mis Mai, ym mhob ward yn eu tro.

Yn ogystal â chyfarfodydd llawn y Cyngor Cymuned, mae is-bwyllgorau wedi ei sefydlu - Cyllid a Llywodraethant, Mynwentydd, Llwybrau Cyhoeddus, Eiddo. Bydd yr is-bwyllgorau yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd unrhyw argymhellion a wneir gan yr aelodau yn cael eu cymeradwyo mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn.

Yn ystod 2022 - 2023, mae'r cyfarfodydd wedi cael eu cynnal yn rhithiol ac yn y Ganolfan.

Safle We

Mae cofnodion o'r cyfarfodydd ynghyd a manylion gwariant y Cyngor Cymuned i'w gweld ar y safle we www.Dolbenmaen.Cymru.

Atebolrwydd

Ar ôl cael eu hethol, mae'n rhaid i'r Cyngorwyr lofnodi datganiad derbyn swydd ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i lynu wrth y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor Cymuned. Mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngorwyr i weithredu'n briodol.

Disgwylir i'r Cyngorwyr ddatgan buddiant personol mewn unrhyw eitem ar yr Agenda os ydynt yn ymwybodol y gallent elwa mewn unrhyw fodd. Nid yw Cyngorwr (yr) sy'n datgan buddiant yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Cedwir cofnod o'r buddiannau personol ac maent yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Cymuned yn flynyddol.

Mae'r rheolau ar gyfer holl gyfarfodydd y Cyngor Cymuned wedi'u cynnwys yn Rheolau Sefydlog y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau gweithdrefn a bennwyd yn y gyfraith. Maent yn helpu'r Cyngor Cymuned i weithredu'n ddidrafferth.

Aelodaeth Allanol

Mae'r Cyngor Cymuned yn aelod o Unllais Cymru - y corff ar gyfer Cyngorau Cymuned a Threfi, Cymru. Mae Unllais Cymru yn darparu cyngor cyfreithiol, hyfforddiant a gwybodaeth ar ddatblygu polisïau.

Mae dau o'r Cyngorwyr yn mynychu cyfarfodydd Unllais ar gyfer ardal Arfon/Dwyfor.

Bydd un o'r Cyngorwyr, bob yn ail gyda chynrychiolydd o Gyngor Tref Porthmadog, yn gwasanaethu ar fwrdd Llywodraethol Ysgol y Gorlan.

Mae un o'r Cyngorwyr yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Fforwm Cymunedol Safle Treftadaeth y Byd.

Cyllideb

Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn ceisio rhagweld pa wasanaethau y bydd yn eu darparu, ac yn amcangyfrif faint o arian fydd ei angen arno i'w cyllido. Paratwir cyllideb fydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ym mis Ionawr. 'Gosod

praesept' yw'r term swyddogol am hyn, ac mae'r arian yn cael ei gasglu drwy'r Dreth Gyngor.

Mae'r gwariant yn cael ei fonitro yn fisol a'r Clerc yn adrodd ar y sefyllfa ariannol yn y cyfarfodydd llawn. Mae'r llyfrau ariannol yn cael ei gwirio yn chwarterol gan ddau Gyngorydd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd y llyfrau ariannol yn cael ei archwilio gan archwilydd mewnol sef Cwmni A-Hughes Jones, Dyson ac yn cael archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Rhoddion Ariannol

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i Gyngorau Cymuned wario ar weithgarwch nad oes ganddynt bwerau penodol yn ei gylch, os yw'r Cyngor o'r farn y bydd y gwariant o fydd uniongyrchol i'r ardal. Rhoddir caniatâd hefyd i'r Cyngor wario at ddibenion elusennol.

Bob blwyddyn, rhoddir cyfle i fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor a thu hwnt, wneud cais am rodd ariannol. Gellir gwneud hyn trwy gysylltu â'r Clerc a rhoi manylion bras am waith y mudiad ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf. Dros y blynyddoedd, Cyngor wedi rhoi arian i'r canolfannau cymdeithasol yn yr ardal, i gylchoedd meithrin lleol ac i amrywiol elusennau, grwpiau a chymdeithasau yn yr ardal leol a thu hwnt. Yn ogystal, gall y Cyngor ystyried defnyddio arian o Gronfa'r Cadeirydd ar gyfer cais am gymorth sydd wedi methu'r dyddiad cau diwedd mis Rhagfyr. Penderfynwyd cyfrannu £200 allan o Gronfa'r Cadeirydd tuag at achos Rachel Heal, Rhiant Ysgol Hafod Lon i helpu prynu beic arbenigol i blant oed cynradd yr ysgol.

Derbyniadau a Thaliadau 2022 - 2023

Derbyniadau	
Llog	£63.39
Praesept/Grantiau	£18,000.00
Mynwentydd	£2,140.00
Arall	£2,386.00
TAW	£4,673.63
Cyfanswm	£27,263.02
Taliadau	
Cyflog Clerc	£4,001.76

Costau Ffon	£350.00
Treth	£999.23
Mynwentydd	£3,293.99
Llwybrau	£1,560.00
Cae Chwarae Penmorfa	£400.00
Hyfforddiant	£0.00
Deunyddiau	£249.54
Hysbysebu	£266.80
Rhoddion Ariannol	£2,700.00
Yswiriant	£1,145.08
Rhent	£150.00
Aelodaeth	£482.00
Archwilio Cyfrifon	£831.00
Arall	£2,166.67
TAW	£909.00
Cyfanswm	£19,505.07

Gweithgareddau'r Cyngor 2022 - 2023

Mynwentydd

Torrir y gwair yn rheolaidd yn y Mynwentydd rhwng mis Mai a mis Medi.

Rheolau Claddu

Penderfynwyd bod angen adolygu'r rheolau claddu presennol am nifer o resymau.

Teimlwyd nad oedd gweithdrefn yn bodoli i sicrhau fod teulu/cynrychiolydd yr ymadawedig yn cael copi o'r rheolau a gwybodaeth am y math o gofeb faen sy'n dderbyniol gan y Cyngor. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw reolaeth ar ddewis y teulu o saer maen ac felly'n methu sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r rheolau.

Gwelwyd mwy o deuluoedd yn gofyn am ail agor bedd i gladdu llwch. Os nad oedd yr ymadawedig yn berthynas agos, roedd rhaid sicrhau fod aelodau eraill o'r teulu yn cytuno gyda hyn.

Mae rhai teuluoedd eisiau gosod nodweddion o flaen y gofeb faen. Er mwyn cadw'r naws o fynwentydd fel llefydd tawel, teimlwyd fod angen rheolaeth ar y nodweddion hyn.

Adolygwyd y rheolau ac mae'r canllawiau yn gliriach. Bydd y rheolau yn weithredol o fis Ebrill 2023.

Llwybrau Cyhoeddus

Torrir 21 o lwybrau yn yr ardal. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor Cymuned yn cysylltu gydag Adran Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd pan fod angen tynnu ei sylw at unrhyw waith sydd angen gwneud.

Yn dilyn cyfarfod gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, cytunwyd gwneud gwelliannau i lwybr Cambrian Terrace heibio Bryn Moel yng Ngarndolbenmaen. Gwaith megis gosod giât newydd, rhoi peipen yn y ffos a rhoi llechi cerrig yn ôl. Y gobaith yw cael y gwaith wedi'i gwblhau mor fuan â phosib.

Yn ardal Cwmystradllyn, mae dipyn o bobl yn cerdded ar hyd yr hen dramffordd. Mae'r llwybr yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru ac mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus iawn i'w gadw. Cysylltwyd gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy ac mae'n awyddus i gydweithio gyda'r Cyngor Cymuned a Pharc Cenedlaethol Eryri i ddod a'r rhwydwaith i safon.

Cae Chwarae Penmorfa

Braf yw cael adrodd bod yna ddefnydd yn cael ei wneud o'r ardd gymunedol a'r cae chwarae.

Materion Priffyrdd

Mae'r Cyngor Cymuned yn cysylltu gydag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i dynnu ei sylw at ffosydd, cwlferi a draeniau sydd angen eu glanhau.

Tynnir sylw'r Cynghorwyr ar faterion gall beri niwed i drigolion ac mae'r Cyngor Cymuned yn gweithredu ar y pryderon yma.

Dafarn Faig

Derbyniwyd llythyr gan un o'r trigolion lleol ynglŷn â'r perygl o gael mynediad i'r A487 o'r gyffordd. Cafwyd cyfarfod safle rhwng dau gynghorydd a swyddog o'r Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Roedd y swyddog yn cytuno fod y gyffordd yn beryg a bod datrysiad yn anodd. Adroddwyd fod posib gwella gwelededd wrth dorri'r clawdd sydd yn mynd fyny am Dafarn Faig a drwy leihau

maint y clawdd pridd. Mae'r gwaith wedi ei gwblhau'n rhannol ac mae gweledd wedi gwella. Y gobaith yw cwblhau'r gwaith yn yr wythnosau/misoedd nesaf.

Pont y Traeth

Cafwyd cyfarfod rhwng dau gynghorydd a swyddogion o Gyngor Gwynedd i drafod y pryderon o ddŵr yn cronni a choed yn tyfu ar y bont a'r effaith y gall hyn gael ar y strwythur. Gobeithir cael datrysiad y flwyddyn nesaf.

Cyfarfod gydag Arolygwr Gwaith Gofal a Stryd Dwyfor, Cyngor Gwynedd

Yn ystod sawl cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, mae pryderon wedi cael eu lleisio am gyfarwyddiadau dargyfeirio traffig aneglur sy'n cael eu gosod pan fydd ffordd yn cael ei gau.

Rhodddwyd gwahoddiad i'r swyddog sydd â chyfrifoldeb am waith gofal a stryd Cyngor Gwynedd i ddod i un o'r cyfarfodydd i drafod y mater.

Eglurodd y broses sy'n cael ei ddilyn wrth osod arwyddion pan fo angen cau ffordd a dargyfeirio traffig oherwydd gwaith cynnal a chadw neu mewn argyfwng. Cyfrifoldeb y Contractwr sy'n gwneud y gwaith yw penderfynu ar y ffordd arall i gymryd. Mae Cyngor Gwynedd yn gwirio hyn,

Cafodd y Cyngorwyr gyfle i drafod achosion ble mae'r arwyddion wedi bod yn anghywir a rhoi awgrymiadau ar sut i sicrhau fod y cyfarwyddiadau yn gliriach.

Ceisiadau Cynllunio/Datblygiadau yn yr Ardal

Derbyniwyd manylion 7 o geisiadau cynllunio ar gyfer y Ward -

Bryncir	2
Prenteg	1
Cwm Pennant	0
Garndolbenmaen	3
Pentrefelin	0
Golan a Cwmystradllyn	0
Penmorfa	1

Gwrthwynebwyd 1 o'r ceisiadau oedd yn ddiwygiad i'r cais cynllunio gwreiddiol.

Materion Cyffredinol

Hwb Eifionydd

Ers mis Hydref, 2021 mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn cysylltu yn rheolaidd gyda Hwb Eifionydd ynglŷn â phryderon y trigolion lleol.

Cafwyd ar ddeall fod yr Hwb wedi sefydlu grŵp cleifion. Cysylltwyd gyda'r Hwb i ddatgan siom nad ydynt wedi cynnwys cynrychiolwyr o gynghorau cymuned/tref ar y grŵp cleifion.

Cafwyd ymateb yn dweud bod y grŵp cleifion wedi ei sefydlu i dderbyn adborth gan drawstoriad o gleifion sydd yn adlewyrchu trawstoriad o anghenion, profiadau pentrefi a threfi'r feddygfa. Dywedwyd hefyd bod yr aelodaeth gyffredol yn eu galluogi i gyrraedd y nod yma ac felly ni fyddent yn gwahodd aelodau o'r cynghorau cymuned.

Byddai'r Rheolwr Practis yn fwy na bodlon i gyfarfod gyda Chadeirydd y Cyngor Cymuned yn y feddygfa i drafod unrhyw bryderon.

Blychau ffôn Cwm Pennant a Chwmystradllyn

Cafodd y Cyngor Cymuned gyfle i roi sylwadau ar ymgynghoriad gan BT ynglŷn â gwaredu'r blychau ffôn uchod. Nodwyd fod signal gwael ar ffonau symudol, yr ardaloedd yn boblogaidd gyda cherddwyr a physgotwyr. Byddai'n anodd galw am y gwasanaethau brys petai ddamwain yn digwydd. O ganlyniad, mae BT wedi penderfynu eu cadw.

Bin Baw Ci Llyn Cwmystradllyn

Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o bobl sy'n cerdded eu cŵn yn ardal Llyn Cwmystradllyn.

Derbyniwyd cwyn gan un o'r trigolion lleol am ymddygiad anghyfrifol rhai perchnogion cŵn. Rhai yn gadael y baw ar lawr, rhai yn ei roi mewn bagiau priodol, ond yn gadael y bagiau ar lawr yn y maes parcio. Yn ddiweddar mae rhai yn rhoi'r bagiau mewn biniau gwyrdd trigolion lleol.

Cysylltwyd gyda Dŵr Cymru. Nid yw'n arferol i Dŵr Cymru osod biniau wrth ei llynnoedd a chronfeydd. Ymddengys fod aelod o staff Dŵr Cymru wedi gwirfoddoli i gymryd cyfrifoldeb am wagio'r bin wrth y llyn. Ers i'r aelod staff ymddeol, nid oes neb arall yn fodlon gwneud y gwaith.

Gofynnwyd i'r clwb pysgota gymryd perchnogaeth o'r bin, ond maent wedi gwrthod.

Bu Dŵr Cymru mewn trafodaeth gyda Chyngor Gwynedd i weld a fyddant yn fodlon cymryd perchnogaeth ohono, ond nid yw hyn wedi digwydd.

Gobeithir y bydd y perchnogion y cŵn yn cymryd cyfrifoldeb am fynd a'r bagiau adref.

John Ystumlllyn

Yn ystod 2022, cyflwynodd cwmni rhosod Harkness rhosyn newydd er cof am John Ystumlllyn. Penderfynwyd prynu 3 rhosyn. Cafwyd caniatâd i blannu 2 ger y fainc ym Mhentrefelin ac 1 nesaf at y fainc ger Bryn Tyddyn.

Llwyddwyd i gefnogi busnesau lleol drwy archebu'r rhosod gan Ganolfan Arddio Tyddyn Sachau a'r potiau plannu o Weithdy A, Pentrefelin.

Diffibriliwr Prenteg

Derbyniwyd rhodd ariannol o £1500 gan The Crag and Cave Club i brynu diffibriliwr ar gyfer Prenteg. Mae'r diffibriliwr wedi ei brynu a'i osod tu allan i'r Ganolfan ym Mhrenteg gychwyn mis Mawrth. Gobeithir cael sesiynau hyfforddiant i bobl yr ardal ddiwedd mis Mai/dechrau Mehefin.

Etholiad Mai 2022

Yn ystod mis Mawrth, derbyniwyd papurau enwebu ar gyfer yr etholiad uchod a rhannwyd y rhain gyda'r Cyngorwyr. Ar y 7fed o Ebrill, derbyniwyd rhestr o'r personau a enwebwyd. O'r 13 o Gynghorwyr oedd yn ail sefyll, dim ond 4 oedd wedi cael eu henwebu. Golyga hyn nad oedd cworwm i allu cyfarfod yn gyfreithiol ac i gymryd y penderfyniad i gyfethol.

Bu'r profiad yn ystod y 2 etholiad yn un heriol a chysylltwyd gyda Phrif Weithredwr Cyngor Gwynedd i dynnu ei sylw at bryderon y Cyngor Cymuned.

Ym mis Medi, derbyniwyd ateb yn nodi y byddai'r adborth yn cael ei ddefnyddio i wella'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Penderfynodd y Cyngor Cymuned gysylltu yn ôl hefo Cyngor Gwynedd i gael cadarnhad o'r newidiadau/gwelliannau i'r gwasanaeth.

Oherwydd anfodlonrwydd gydag ymateb Cyngor Gwynedd, penderfynwyd peidio talu'r anfoneb am gost yr etholiad. Gwnaethpwyd ymholiadau i weld oedd cynghorau cymuned eraill yn rhannu'r un anfodlonrwydd gyda'r gwasanaeth etholiadol.

Trafodwyd yr Etholiad ym Mhwyllgor Ardal Arfon Dwyfor o Un Llais Cymru ar y 1af o Chwefror, 2023. Awgrymwyd fod pawb sydd yn anhapus hefo'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd yn pasio'r wybodaeth berthnasol ymlaen at Mel ab Owain, Un Llais Cymru ac y bydd yntau wedyn yn ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd a Phennaeth yr Adran gan anfon copi at Siân Gwenllian AS.

Mae Mel ab Owain wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr, Cyngor Gwynedd a Siân Gwenllian AS ar ran y Cyngor Cymuned a Chynghorau Cymuned eraill. Disgwylir ateb i'r llythyr.

Cynlluniau sydd ar y gweill

Bwrdd Gwybodaeth Pentrefelin

Penderfynwyd comisiynu arlunydd lleol, Ffion Gwyn i greu dyluniad bwrdd gwybodaeth i'w osod ym Mhentrefelin i adrodd hanes a chydabod enwogion lleol megis John Ystumllyn a Dafydd y Garreg Wen ac amryw o rai eraill.

Penderfynwyd defnyddio saer lleol, Dafydd Williams i greu'r ffrâm i ddal y bwrdd gwybodaeth ac i'w osod ger y fainc yng nghanol y pentref, ym Mhentrefelin.

Gobeithir hefyd gael arwydd ar geg y ffordd sydd yn arwain i Eglwys Ynyscynhaearn. Mae cais eisoes wedi mynd mewn i Gyngor Gwynedd am ystyriaeth.

Mae cais am arian wedi ei wneud i Gronfa Gelfyddydol Cyngor Gwynedd a gobeithir rhoi cais am arian i mewn yn fuan i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Y gobaith yw cael y bwrdd gwybodaeth yn ei le cyn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, 2023.

Bryn Tyddyn - Pentrefelin

Hoffai'r Cyngor Cymuned greu cae chwarae ag gardd gymunedol ar ddarn o dir ger Bryn Tyddyn gan roi ystyriaeth i fioamrywiaeth. Mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i wneud ymholiadau parthed perchnogaeth y darn o dir sydd o dan sylw.